*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Cloverly

## Dyddiad yr arolygiad: 25 Mawrth 2015

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 7 | Gweithredu system ar gyfer ceisio barn y cleifion ynglŷn â'r gwasanaeth yn gyson. | Mae system o arolygon cleifion wedi'i rhoi ar waith. Bydd arolygon yn cael eu cynnal yn rheolaidd. | S. Griffiths | Wedi'i gwblhau |
| 8 | Cynyddu argaeledd y wybodaeth yn yr ystafell aros i hybu iechyd deintyddol da. | Mae rhagor o daflenni gwybodaeth ar gael erbyn hyn. | S. Griffiths | Wedi'i gwblhau |
| 8 | Arddangos rhestr brisiau wedi'i diweddaru a manylion y gweithwyr deintyddol proffesiynol yn yr ardaloedd lle mae'r cleifion yn aros yn y practis. | Mae rhestr brisiau wedi'i chreu ac ar gael. Mae rhestr o weithwyr deintyddol proffesiynol hefyd wedi'i chreu. | S. Griffiths | Wedi'i gwblhau |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |
| 9 | Sefydlu set o safonau ar gyfer cadw cofnodion, a'r lefel o fanylder a ddisgwylir o ran cofnodi ym mhob ymweliad claf. | Mae system cadw cofnodion sy'n cyd-fynd â safonau'r Gyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol (FGDP) wedi'i rhoi ar waith. | S. Griffiths | Wedi'i gwblhau |
| 10 | Adolygu'r llif o ran prosesu'r cyfarpar yn yr ystafell ddadheintio er mwyn sicrhau bod y broses yn lleihau'r risg o heintio cyn belled â phosibl. | Mae llif y cyfarpar deintyddol trwy'r ystafell ddadheintio wedi'i adolygu a chyngor wedi'i dderbyn trwy hyfforddiant ar y safle. | S. Griffiths | Wedi'i gwblhau |
| 10 | Mae angen i'r practis ddatblygu rhestr wirio ddyddiol er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r hyn sydd angen ei wneud i gadw cyflenwad da o adnoddau yn y ddeintyddfa a sicrhau ei bod yn barod ar gyfer trin cleifion yn ddiogel. | Mae rhestr ddyddiol 'Rhowch Gychwyn' yn y ddeintyddfa wedi'i chreu. | S. Griffiths | Wedi'i gwblhau |
| 10 | Gweithredu system o archwiliadau rheoli heintiau, gan sicrhau bod y rhain yn cael eu dogfennu a'u hadolygu fel y gellir nodi tueddiadau a phroblemau. | Cynhelir archwiliadau rheoli heintiau'n rheolaidd a gweithredu ar y canlyniadau. | S. Griffiths | Wedi'i gwblhau |
| 10 | Hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am ddefnydd o gyfarpar radiograffig yn yr adeilad a rhoi tystiolaeth o hyn i AGIC ar ôl ei gyflawni. | Hysbyswyd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am gyfarpar radiograffig yn 2013. Rhoddwyd tystiolaeth i AGIC. | S. Griffiths | Wedi'i gwblhau |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 11 | Addasu'r polisi ymbelydredd er mwyn iddo fod yn benodol i bractis deintyddol Cloverly. Ar ôl ei greu, dylid llofnodi hwn a nodi dyddiad ar gyfer ei adolygu. | Addaswyd rheolau lleol ymbelydredd, ac mae dyddiad adolygu wedi'i osod. | S. Griffiths | Wedi'i gwblhau |
| 11 | Dylid arddangos rheolau lleol ar gyfer y defnydd o gyfarpar radiograffig mewn lle amlwg o fewn y ddeintyddfa. | Arddangosir rheolau lleol yn y ddeintyddfa mewn lle amlwg. | S. Griffiths | Wedi'i gwblhau |
| 11 | Sefydlu system i archwilio'n flynyddol ansawdd y radiograffau a gymerwyd, gan sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu cofnodi. | Mae system i adolygu ansawdd radiograffau wedi'i rhoi ar waith. | S. Griffiths | Wedi'i gwblhau |
| 11 | Gwella'r polisïau dadebru ac argyfwng, a sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi a'u bod yn ymwybodol o'r camau sy'n ofynnol iddynt eu cymryd. | Hyfforddir staff bob amser yn flynyddol mewn adfywio cardio-pwlmonaidd. Maent wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf ac yn cael eu profi'n rheolaidd. | S. Griffiths | Wedi'i gwblhau |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| 12 | Dylid rhoi ar waith ffeiliau staff sy'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys contractau a statws imiwneiddio, a'u cadw i sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru'n gyson. | Mae ffeiliau staff wedi'i rhoi ar waith. Mae'r imiwneiddiadau wedi'u diweddaru. | S. Griffiths | Wedi'i gwblhau |
| 12 | Creu a chadw cofnodion hyfforddiant sy'n dangos manylion yr holl aelodau staff a'r sefyllfa gyfredol o ran eu hyfforddiant | Mae cofnodion hyfforddiant ar gyfer yr holl staff wedi'u creu. Mae hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd ar gyfer yr holl staff wedi'i gofnodi. | S. Griffiths | Wedi'i gwblhau |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | gorfodol ac unrhyw hyfforddiant arall. | | | |
| 13 | Dylid cofnodi cyfarfodydd tîm yn fwy manwl er mwyn cofnodi cynnwys y drafodaeth ac nid dim ond enw'r pwnc dan sylw. Dylid hefyd cofnodi tystiolaeth o ddysgu a chynllunio sy'n deillio o hyn. | Mae cofnodion mwy manwl o gyfarfodydd y practis yn cael eu cadw. | S. Griffiths | Wedi'i gwblhau |
| 13 | Dylid cynnal arfarniadau o staff yn flynyddol a'u cofnodi. Dylai trafodaethau gynnwys cynllunio datblygiad personol. | Erbyn hyn, cynhelir arfarniadau staff yn flynyddol. | S. Griffiths | Wedi'i gwblhau |
| 13 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod ganddo gofnod o'r holl gyfarpar, sy'n cynnwys manylion o ba pryd y dylid gwasanaethu a phrofi pob un ohonynt, a rhoi gwybod i AGIC ynglŷn â sut byddant yn sicrhau y bydd hyn yn cael ei wneud. | Cedwir cofnodion o'r holl gyfarpar sydd angen i'w wasanaethu a'i brofi. | S. Griffiths | Wedi'i gwblhau |
| 14 | Rhaid i'r practis ddatblygu gweithdrefn gwyno sy'n cymryd i ystyriaeth safonau Cymreig perthnasol a chyrff cysylltiedig. Dylai'r practis hefyd sicrhau bod gweithdrefn gwyno ar gyfer cleifion deintyddol preifat yn cael ei chreu, gan sicrhau bod manylion cyswllt AGIC yn cael eu cynnwys, a bod gweithdrefn ar gyfer cleifion deintyddol y GIG hefyd yn cael ei chreu. | Mae gweithdrefn gwyno sy'n unol â safonau AGIC wedi'i rhoi ar waith ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat fel ei gilydd.<br><br>Erbyn hyn, arddangosir y weithdrefn. Mae copi wedi'i anfon at AGIC. | S. Griffiths | Wedi'i gwblhau |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Ar ôl creu'r weithdrefn, dylid ei harddangos mewn lle blaenllaw o fewn y practis er mwyn i gleifion i'w gweld, a dylid anfon copi at AGIC. | | | |
| 14 | Mae'n rhaid sefydlu log o'r holl bryderon/cwynion a chanmoliaethau Dylai'r ddogfen hon alluogi staff y practis i nodi unrhyw anghenion dysgu sydd efallai yn deillio o'r materion a godwyd. | Cedwir log o'r holl gwynion. | S. Griffiths | Wedi'i gwblhau |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| 15 | Aildrefnu'r ddwy ystafell sydd yng nghefn yr adeilad er mwyn creu ardal staff ar wahân yn ogystal ag ystafell storio/cyfarpar ychwanegol i'r practis. | | | |
| 15 | Adolygu contract gwaredu gwastraff y practis er mwyn sicrhau bod yr holl lifoedd gwastraff yn gallu cael eu gwaredu'n ddiogel ac yn briodol. | | | |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (llythrennau bras): Sarah Griffiths ...........................................................................**

**Teitl: Dr.........................................................................................**

**Llofnod:** ..........................................................................................

**Dyddiad:** 2 Tachwedd 2015..........................................................................................